## ATODLEN 1

## YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS MEWN CAIS AM GANIATÅD I OLLWNG NEU FARCHNATA UWCHBLANHIGION A ADDASWYD YN ENETIG

# Rhan II

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Â'R PLANHIGION RHIENIOL NEU'R PLANHIGYN DERBYN

**3.** Enw llawn y planhigyn—

(a) enw teuluol,

(b) genws,

(c) rhywogaeth,

(ch) isrywogaeth,

(d) llinell cyltifar/fridio,

(dd) enw cyffredin.

**4.** Gwybodaeth ynghylch—

(a) atgenhedliad y planhigyn:

(i) dull neu ddulliau atgenhedlu,

(ii) unrhyw ffactorau penodol sy'n effeithio ar atgenhedlu,

(iii) amser cenhedliad; a

(b) cydweddoldeb rhywiol y planhigyn â rhywogaethau a gafodd eu trin neu rywogaethau planhigion gwyllt eraill gan gynnwys dosbarthiad y rhywogaeth gydweddol yn Ewrop.

**5.** Gwybodaeth ynghylch gallu'r planhigyn i oroesi:

(a) ei allu i ffurfio strwythurau i oroesi neu ar gyfer cysgadrwydd,

(b) unrhyw ffactorau penodol sy'n effeithio ar ei allu i oroesi.

**6.** Gwybodaeth ynghylch gwasgariad y planhigyn:

(a) dull a hyd a lled (megis brasamcan o sut y mae paill a/neu hadau hyfyw yn dirywio dros bellter pan fo hynny'n gymwys) y gwasgariad; a

(b) unrhyw ffactorau penodol sy'n effeithio ar wasgariad.

**7.** Dosbarthiad daearyddol y planhigyn.

**8.** Pan fo'r cais yn ymwneud â rhywogaeth planhigyn nad yw'n cael ei dyfu yn arferol yn y Deyrnas Unedig, disgrifiad o gynefin naturiol y planhigyn, gan gynnwys gwybodaeth am ysglyfaethwyr naturiol, parasitiaid, cystadleuwyr a symbontiaid.

**9.** Unrhyw ryngweithiadau posibl eraill, sy'n berthnasol i'r organedd a addaswyd yn enetig, rhwng y planhigyn ag organeddau yn yr ecosystem lle caiff ei dyfu'n arferol, gan gynnwys gwybodaeth am effeithiau gwenwynig ar bobl, anifeiliaid ac organeddau eraill.